# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y RHAGLEN GRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD LLUN, 8 AWST 2016 AM 4.30 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | S E Crouch |
| N J Davies | C R Evans | E W Fitzgerald |
| F M Gordon | T J Hennegan | P M Meara |
| J W Jones | D J Lewis | |
| G Owens | | |

| **Aelod Cyfetholedig** | **Aelod Cyfetholedig** |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | C A Holley |

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd J A Raynor – Aelod y Cabinet dros Addysg
Y Cynghorydd D W W Thomas – Dirprwy Aelod y Cabinet dros Addysg

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| B Madahar | Cydlynydd Craffu |
| W Parkin | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio Addysg ac Adnoddau |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorwyr: P R Hood-Williams, E J King a G J Tanner

### 39 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

### 40 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

41 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir.

42 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

43 **SESIWN HOLI AELOD Y CABINET DROS ADDYSG (Y CYNGHORYDD JENNIFER RAYNOR).**

Rhoddodd y Cynghorydd J A Raynor sylwadau agoriadol a gwybodaeth am ei phortffolio cabinet cyn cymryd cwestiynau gan y pwyllgor.

Yna derbyniodd gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor ynghylch y meysydd canlynol:

- Y gost i'r awdurdod o ran yr oedi gyda chais Maes Pentref Parc y Werin;
- Ardal chwarae ym Mharc y Werin;
- Darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS);
- Y gost sy'n gysylltiedig â lleoedd dros ben;
- Y cynllun ar gyfer y dyfodol o ran Rhaglen Dechrau'n Deg;
- Amserlenni ac effaith oedi gyda Grant Gwella Addysg (EIG) 2016-2017;
- Problemau gydag un ysgol gynradd yn gwrthod cymryd rhan mewn craffu ar arsylwadau gwersi;
- Dirprwyo cyllidebau i ysgolion;
- Presenoldeb ysgolion;
- Lleoliadau y tu allan i'r dalgylch;
- Dilyniant busnes (bomiau ffug mewn ysgolion cyfun mawr);
- Y rhagolygon ar gyfer y ddwy ysgol a nodwyd yn y categori cefnogaeth COCH;
- Ymgynghorwyr Herio;

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y strwythur diwygiedig ar gyfer addysg gan ofyn i enwau gael eu nodi ynghyd â theitlau swyddi/meysydd gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD** y dylai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

44 **CEFNOGI A DATBLYGU CYNGHORWYR CRAFFU.**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad a oedd yn gofyn i’r pwyllgor ystyried anghenion cefnogi a datblygu cynghorwyr craffu.

Cyfeiriodd at yr adborth o'r arolwg cynghorwyr blynyddol ar anghenion hyfforddi a datblygu, Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad y cyngor y cytunwyd arni ar gyfer 2016/17 a chymorth posib gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer gwasanaethau cefnogi a datblygu i gynghorwyr.

Trafododd yr aelodau'r materion canlynol:

- Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gyfanswm cyllideb o £3,000 yn unig ar gyfer hyfforddiant aelodau;
- Mae offer e-ddysgu'n ddefnyddiol;
- Byddai hyfforddiant ar sgiliau cwestiynu'n fuddiol - i sicrhau y gofynnir y cwestiynau cywir a bod y cwestiynu'n gadarn;
- Croesewir cymorth gan CLILC wrth ddatblygu modiwl e-ddysgu sefydlu craffu; a'r
- Angen i ddefnyddio profiad/arbenigedd cynghorwyr penodol.

**PENDERFYNWYD** bod aelodau'n trosglwyddo unrhyw sylwadau am gymorth a datblygiad i'r Cydlynydd Craffu.

## 45 ARWEINIAD AR GYFER AELODAU CYFETHOLEDIG.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad a oedd yn ychwanegu at y protocol y cytunwyd arno'n flaenorol ar gydweithrediad drwy gynnig arweiniad i aelodau cyfetholedig unwaith y byddant wedi ymuno â phaneli a gweithgorau.

**PENDERFYNWYD CYTUNO** ar yr arweiniad.

## 46 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL PERFFORMIAD CRAFFU - GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD (Y CYNGHORYDD PAXTON HOOD-WILLIAMS, CYNULLYDD).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Adroddiad Cynnydd y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a dywedodd nad oedd y Cynghorydd P R Hood-Williams yn gallu dod i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei **NODI**.

## 47 ADRODDIADAU CRAFFU - ADRODDIAD EFFAITH CHWARTEROL.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad chwarterol drafft gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu i'r cyngor am effaith craffu.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar gynnwys yr 'Adroddiadau Craffu' drafft a'u cyflwyno i'r cyngor ar 22 Medi 2016.

48 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2016/17.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y rhaglen waith a chyfeirio at yr ymholiadau newydd posib a'r angen i ddatblygu cylch gorchwyl clir a phendant i sicrhau y cwblheir casglu tystiolaeth cyn diwedd 2016 er mwyn rhoi amser i lunio'r adroddiadau terfynol a chytuno arnynt ar ddechrau 2017.

Dywedodd y Cadeirydd y cynhelir cyfarfod nesaf y trefniant craffu rhanbarthol gyda'r chwe chyngor sy'n rhan o gonsortiwm gwella ysgolion 'Ein Rhanbarth ar Waith' (ERW) ym mis Medi yng Nghyngor Sir Benfro.

Nodwyd y derbyniwyd cais gan y cyhoedd i graffu ar Dai Amlfeddiannaeth (HMO) ac y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn iddo gytuno arno.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r rhaglen waith craffu fel a nodwyd yn yr adroddiad.

49 **AELODAETH PANELI CRAFFU A GWEITHGORAU.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i Aelodaeth Paneli/Gweithgorau Craffu.

Amlinellwyd diwygiad i aelodaeth bresennol y panel/gweithgor craffu o ran:

- Panel Ymchwilio Craffu Trechu Tlodi - y Cynghorydd H M Morris i'w ychwanegu.

Adroddwyd am fynegiannau o ddiddordeb gan gynghorwyr craffu hefyd ar gyfer y gweithgareddau craffu newydd canlynol:

- Ymchwiliad Partneriaethau a Chydweithio (10) – Y Cynghorwyr J B Burtonshaw (cynullydd), M Evans, J Hale, H Morris, G Owens, C Thomas, C Holley, D Cole, S Jones, A Colburn.
- Ymchwiliad Parodrwydd ar gyfer yr Ysgol (8) – Y Cynghorwyr H M Morris (cynullydd), S Crouch, J Curtice, F Gordon, E King, M Day, M Jones, W Fitzgerald.
- Gweithgor Cytundebau Cynllunio ac Adran 106 (14) – Y Cynghorwyr C A Holley (cynullydd), J Curtice, P Downing, T Hennegan, Y Jardine, G Tanner, M Jones, D Cole, W Fitzgerald, L James, K Marsh, A Colburn, Miles Thomas, L Tyler-Lloyd.

**PENDERFYNWYD CEFNOGI'R** penodiadau uchod.

50 **LLYTHYRAU'R TÎM CRAFFU.**

Adroddodd y Cadeirydd am y cofnod llythyrau craffu a chyfeiriodd at yr ohebiaeth ddiweddar rhwng paneli craffu ac Aelodau'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 51 ADBORTH O DDIGWYDDIADAU CRAFFU DIWEDDAR.

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau craffu diweddar.

## 52 DIGWYDDIADAU CRAFFU SYDD AR DDOD.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ailadrodd y sesiwn ymwybyddiaeth o Drechu Tlodi i gynghorwyr craffu ar 15 Medi 2016 am 4.00pm gan annog cydweithwyr i fynd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y sesiwn wreiddiol ym mis Gorffennaf.

## 53 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).

**PENDERFYNWYD** y dylid **NODI** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

## 54 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR YN Y DYFODOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).

**NODWYD** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

## 55 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD NESAF PANELI/GWEITHGORAU.

Rhoddwyd dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 pm